OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1408 (Cy.145)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*30 Mai 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*2 Mehefin 2008*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 105(4) a (5) a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 1 Awst 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dirymu

2. Dirymir Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000(**3**).

Ystyr iaith dramor fodern

3. At ddibenion adran 105 o Ddeddf Addysg 2002 ystyr "iaith dramor fodern" yw unrhyw iaith dramor fodern.

Penderfyniad gan Weinidogion Cymru

4.—(1) Mae unrhyw gwestiwn ynghylch a yw iaith dramor benodol yn iaith dramor fodern at ddibenion adran 105 o Ddeddf Addysg 2002 i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru.

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) O.S. 2000/1980 (Cy.141).